# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau A Thrafodion (251)

**Dyddiad: Dydd Mawrth, 13 Chwefror 2007**
**Amser: 2.00pm**

**Gellir gweld canlyniadau'r pleidleisiau yma**

**Eitem 1 - Cwestiynau i'r Prif Weinidog**

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf.

**.......................**

**3.03pm**

**Cwestiwn Brys: Leanne Wood (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar alwadau brys i'r Gwasanaeth Ambiwlans yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg**

**.......................**

**3.22pm**

**Eitem 2 - Datganiad Busnes**

**Derbyniwyd y datganiad busnes.**

**.......................**

**3.29pm**

**Eitem 3 - Datganiad gan y Prif Weinidog: Newid yn yr Hinsawdd**

**.......................**

**4.14pm**
**Eitem 4 - Datganiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad: Adeiladau Cynaliadwy**

**.......................**

**4.33pm**

## Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth.

## Eitem 5 - Cynnig i gymeradwyo deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 24.25

**NDM3455 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu’n unol â Rheol Sefydlog 24.25:

1. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 6 Chwefror 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2007; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2007 yn cael eu gwneud yn unol ag:

(i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Ionawr 2007; a

(ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Ionawr 2007.

2. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 6 Chwefror 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2007; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2007 yn cael eu gwneud yn unol ag:

(i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Ionawr 2007;

(ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Ionawr 2007; a

(iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 6 Chwefror 2007.

3. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 6 Chwefror 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Deunyddiau

Bwyd sydd wedi’u Rhewi’n Gyflym (Cymru) 2007; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi’u Rhewi’n Gyflym (Cymru) 2007 yn cael eu gwneud yn unol ag:

(i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ionawr 2007;

(ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ionawr 2007; a

(iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 6 Chwefror 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| **O blaid** | **Ymatal** | **Yn erbyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 31 | 0 | 0 | 31 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**.......................**

## 4.34pm

## Eitem 6 – Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2007 o dan Reol Sefydlog 25 rhan 2 a Rheol Sefydlog 24.25

**NDM3456 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu’n unol â Rheol Sefydlog 24.25 a Rheol Sefydlog 25 rhan 2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 6 Chwefror 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Cynhyrchion sy’n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2007; a

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cynhyrchion sy’n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2007 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ionawr 2007; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ionawr 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| **O blaid** | **Ymatal** | **Yn erbyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 31 | 0 | 0 | 31 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**......................**

## 4.35pm

## Eitem 7 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2007

### NDM3461 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2007, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ionawr 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y rheoliadau:

| **O blaid** | **Ymatal** | **Yn erbyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd egwyddor y rheoliadau.**

### NDM3462 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 6 Chwefror 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2007; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2007 yn cael eu gwneud yn unol ag:
a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ionawr 2007; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ionawr 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y rheoliadau:

| **O blaid** | **Ymatal** | **Yn erbyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 49 | 1 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd y rheoliadau.**

**.......................**

## 4.51pm

## Eitem 8 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Dyddiad Cyfarfod Cyntaf y Cynulliad sydd wedi ei Gyfansoddi yn ôl Deddf Llywodraeth Cymru 2006) 2007

**NDM3459 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Dyddiad Cyfarfod Cyntaf y Cynulliad sydd wedi ei Gyfansoddi yn ôl Deddf Llywodraeth Cymru 2006) 2007, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Ionawr 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y gorchymyn:

| **O blaid** | **Ymatal** | **Yn erbyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd egwyddor y gorchymyn.**

**NDM3460 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 6 Chwefror 2007 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Dyddiad Cyfarfod Cyntaf y Cynulliad sydd wedi ei Gyfansoddi yn ôl Deddf Llywodraeth Cymru 2006) 2007; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Dyddiad Cyfarfod Cyntaf y Cynulliad sydd wedi ei Gyfansoddi yn ôl Deddf Llywodraeth Cymru 2006) 2007 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Ionawr 2007; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Ionawr 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y gorchymyn:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd y gorchymyn.**

**.......................**

## 4.52pm

## Eitem 9 - Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Geidwadol Cymru

### NDM3466 Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod mai lliniaru effaith newid yn yr hinsawdd yw'r her bwysicaf sy'n wynebu'r Cynulliad Cenedlaethol ac yn credu bod rhaid i hyn fod yn brif flaenoriaeth i Lywodraeth y Cynulliad.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

“Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i bennu targed i Gymru ostwng gollyngiadau carbon

deuocsid 3% bob blwyddyn.”

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 27 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> “Yn credu y dylai Llywodraeth y Cynulliad ymrwymo i wneud y penderfyniadau angenrheidiol yn 2007 i sicrhau bod holl drydan Cymru, erbyn 2050, yn cael ei gynhyrchu mewn ffordd gynaliadwy.”
>
> Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 8 | 26 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

“Yn credu y dylai pob adeilad newydd yn y sector cyhoeddus yng Nghymru fodloni safonau carbon-niwtral.”

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 27 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> "Yn credu bod angen i Lywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth y DU fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy gymryd camau cadarn a phendant, ac yn galw'n arbennig ar Senedd y DU i gytuno ar raglen radical o newidiadau treth er mwyn cymell ymddygiad eco-gyfeillgar."

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 27 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**NDM3466 Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod mai lliniaru effaith newid yn yr hinsawdd yw'r her bwysicaf sy'n wynebu'r Cynulliad Cenedlaethol ac yn credu bod rhaid i hyn fod yn brif flaenoriaeth i Lywodraeth y Cynulliad.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**.......................**

## 5.45pm
## Cynnig Trefniadol

Yn unol â Rheol Sefydlog 6.21, rhoddodd y Trefnydd Gynnig Trefniadol gerbron i estyn y cyfarfod am 60 munud. Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 33 | 0 | 8 | 41 |

.......................

## 5.46pm

## Eitem 10 - Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru

**NDM3465 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol 2005/06 Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mehefin 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 0 | 28 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## Daeth y cyfarfod i ben am 6.04pm.

# Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mercher, 14 Chwefror 2007

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**Penderfyniadau**

**Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Busnes a gynhaliwyd ar 13 Chwefror, penderfynodd y Dirprwy Lywydd, yn unol â Rheol Sefydlog 24.6, nad oes angen cyfeirio’r eitemau deddfwriaeth canlynol i’w hystyried ymhellach gan bwyllgor pwnc:**

- The Air Quality Standards (Wales) Regulations 2007
- The Dairy Produce Quotas (Wales) (Amendment) Regulations 2007
- The Environmental Offences (Fixed Penalties) (Miscellaneous Provisions) (Wales) Regulations 2007
- The General Teaching Council for Wales (Constitution) (Amendment) Regulations 2007
- The Mental Capacity Act 2005 (Appropriate Body) (Wales) Regulations 2007
- Mental Capacity Act 2005 (Commencement) (Wales) Order 2007
- Mental Capacity Act 2005 (Independent Mental Capacity Advocates) (Wales) Regulations 2007
- The Mental Capacity Act 2005 (Loss of Capacity during Research Project) (Wales) Regulations 2007
- The Controls on Dogs (Non-application to Designated Land) (Wales) Order 2007
- The Dog Control Orders (Miscellaneous Provisions) (Wales) Regulations 2007